Canllawiau sylfaenol i gadeiryddion clybiau

- Y Cadeirydd sydd yn gyfrifol am redeg y clwb o wythnos i wythnos.
- Y Cadeirydd i fod yn brydlon i bob cyfarfod
- Dylai'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd weithio yn dda gyda'i gilydd a chadw mewn cysylltiad yn rheolaidd
- Dylai'r Cadeirydd helpu'r Ysgrifennydd i gysylltu gyda'r aelodau os oes newid mewn unrhyw drefniadau
- Trefnu i gwrdd gyda'r Ysgrifennydd tua chwarter awr cyn y cyfarfod i fynd drwy'r post a.y.b.
- Y Cadeirydd, Ysgrifennydd a'r Ysgrifennydd Cofnodion i eistedd o flaen yr aelodau yn y cyfarfod.
- Dilyn Agenda'r cyfarfod
  1. Ymddiheuriadau
  2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf.
  3. Materion yn codi o'r cyfarfod
  4. Gohebiaeth
  5. Adroddiad y trysorydd
  6. Unrhyw fater arall
  7. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf
- Y Cadeirydd i benderfynu ar ddechrau'r flwyddyn pwy fydd yn darllen y cofnodion blaenorol allan h.y. yr Ysgrifennydd Cofnodion, Ysgrifennydd neu Gadeirydd. Y Cadeirydd i gofio arwyddo'r cofnodion blaenorol cyn mynd ymlaen a'r cyfarfod.
- Y Cadeirydd i sicrhau fod barn pob aelod yn cael ei glywed
- Os nad yw'r Cadeirydd yn gallu mynychu'r cyfarfod, i wneud yn siŵr bod yr Is Gadeirydd yn gwybod mewn da bryd mai ef/hi bydd yn cadeirio'r cyfarfod. Sicrhau bod yr Ysgrifennydd yn gwybod am unrhyw newid sy'n digwydd
- Dylai Cadeirydd y clwb fynychu Pwyllgorau Gwaith y Sir